Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**DIBEN:** Ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio

**Amseru:** Rhaid i'r Strategaeth Gyfalaf fod mewn grym erbyn 1 Ebrill 2018

**Teitl:** Strategaeth Gyfalaf 2018/19 – 2023/24

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Gofyniad Statudol - Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sy'n tanategu cynhyrchu blaenraglen waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'n dangos sut y mae buddsoddi cyfalaf yn cyfrannu at gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

**Argymhelliad:**

Y Cyd-bwyllgor Archwilio i ystyried y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2018/19 – 2023/24.

**Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol (CHTh) i'r Cyd-bwyllgor Archwilio**

**Strategaeth Gyfalaf**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sy'n tanategu cynhyrchu blaenraglen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Mae'n dangos sut mae buddsoddi cyfalaf yn cyfrannu at gyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throseddu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl (PG).

1.2 Nodir y blaenoriaethau ar gyfer plismona yn yr ardal leol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Lluniwyd y ddogfen hon gan y CHTh mewn ymgynghoriad â'r PG. Mae'r blaenoriaethau'n ystyried barn pobl leol a phartneriaid yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd fel y cynrychiolydd etholedig. Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi ei Gynllun Heddlu a Throseddu ar 31 Mawrth 2017. Ei flaenoriaethau yw:

- Blaenoriaeth Un: Cadw ein cymunedau'n ddiogel;
- Blaenoriaeth Dau: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed;
- Blaenoriaeth Tri: Amddiffyn rhag niwed difrifol;
- Blaenoriaeth Pedwar: Cysylltu â chymunedau.

1.3 Mae'r Comisiynydd a'r PG hefyd yn ystyried Gofynion Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r PG yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd o ran cyflwyno'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, ac mae wedi datblygu cynllun cyflenwi er mwyn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei gyflenwi gweithredol, fframweithiau monitro perfformiad a phenderfyniadau ariannu'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Bydd pum egwyddor cyflenwi allweddol yn cynnal y Cynllun Heddlu a Throseddu:

| Blaenoriaethau | Egwyddorion Cyflenwi |
|---|---|
| Cadw ein cymunedau'n ddiogel | Cyflwyno gwerth am arian |
| Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed | Ymgysylltu â'r cyhoedd |
| Diogelu ein cymunedau | Cydweithio |
| Ymgysylltu â chymunedau | Cefnogi dioddefwyr |
| | Arweinyddiaeth gadarn |

1.4 Offeryn yw'r Strategaeth Gyfalaf i gefnogi cynllunio a gweithio corfforaethol ar draws y ddwy Gorfforaeth Undyn. Mae hefyd yn ein helpu i ddefnyddio a rheoli ein hasedau'n dda. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn dangos sut rydym yn blaenoriaethu, monitro, darparu ac yn gwerthuso ein rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol y fethodoleg brosiectau (PRINCE 2).

1.5 Yn ddaearyddol, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr gan ymestyn dros hanner tiriogaeth Cymru. Mae'n cael ei heffeithio'n arbennig gan yr heriau sy'n gysylltiedig â phlismona ardal wledig, sy'n cynnwys dau borthladd o bwys, safleoedd mawr Aberdaugleddau a diwydiant twristiaeth bywiog. Mae Asedau Cyfalaf, boed yn Orsafoedd Heddlu, Tai Heddlu, Mastiau Radio, Cerbydau neu TG ac offer arall yn chwarae rôl hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau plismona ar draws yr ardal ac o ran cyflwyno blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## 2 Partneriaethau Allweddol

2.1 Wrth gyflwyno pob elfen o'r strategaeth, mae'r Comisiynydd yn bwriadu rhoi ystyriaeth briodol i'r agenda gydweithredu barhaus a bydd yn achub ar bob cyfle i ymgysylltu â lluoedd cyfagos ac Awdurdodau cyfansoddol eraill wrth ddatblygu strategaethau i wrthsefyll problemau cyffredin. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn cymryd i ystyriaeth yr angen parhaus i fuddsoddi yn y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn gan gydweithio â phartneriaid yn y dyfodol.

## 3 Rhaglen Gyfalaf

3.1 Mae Asedau'n hollbwysig i ddarparu gwasanaethau effeithlon a dylent gael eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae Strategaethau ar gyfer Rheoli Ystadau, TG ac Amnewid Cerbydau yn tanategu'r Strategaeth Gyfalaf wrth ddarparu'r manylion am hirhoedledd a'r cylchdroadau amnewid gorau i'r eitemau hyn. Seilir y rhaglen gyfalaf gyfredol sydd wedi'i chynnwys fel Atodiad A i'r ddogfen hon ar ystod o wybodaeth am anghenion.

3.2 Mae'r Comisiynydd yn dal y PG i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau'n gost-effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r prosesau gwario a phenderfynu presennol yn ogystal ag edrych ar gyfleoedd ychwanegol i wella gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd a sicrhau gwerth am arian i'r dyfodol.

3.3 Mae'r Gyllideb Gyfalaf a amlinellir yn Atodiad A yn cyfrannu i'r ddarpariaeth blismona yn ardal Dyfed Powys yn y dyfodol drwy adnabod arbedion y gellir eu troi'n arian yn y ffyrdd canlynol:

- Gostyngiad mewn gwariant refeniw drwy raglen o adnewyddu a rhesymoli posibl i adeiladau fel yr amlinellir yn y strategaeth ystadau;
- Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw arfaethedig ar adeiladau yn cael ei flaenoriaethu ar sail risg a chydymffurfiaeth statudol;
- Canoli dalfeydd yn Sir Gaerfyrddin;
- Drwy ddarparu yn erbyn y Strategaeth a Map Ffordd Plismona Digidol sy'n golygu buddsoddi mewn data symudol, plismona digidol a buddsoddi parhaus mewn systemau TG a thechnoleg ANPR i gynnal lefelau cynhyrchiant a pherfformiad;
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a rhannu adeiladau'n dal i gael eu hystyried.

3.4 Yn hanfodol i hyn y mae diweddariad â blaenoriaeth o'r ystâd gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gwella cyfleusterau dalfa yn Sir Gaerfyrddin y disgwylir iddynt gostio oddeutu £8.0 miliwn. Mae'r prosiect yn ceisio cyflwyno adeilad 18 cell gyda swyddfeydd ategol a chyfleusterau gorsaf heddlu ar gyrion Llanelli. Mae'r prosiect ar gam cynllunio 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ar hyn o bryd, sydd, mewn egwyddor, yn dynodi paratoi a chyhoeddi'r cynllun arfaethedig ar gyfer cynllunio gydag arolygon safle geodechnegol ac ecolegol a fydd yn mynd rhagddynt yn ystod y gwanwyn yn 2018. Yn amodol ar arolygon cyflwr tir a chymeradwyaethau cynllunio, disgwylir mai 18 i 20 mis fydd amserlenni'r prosiect gydag ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i drefnu ar gyfer dechrau'r haf ac adeiladu'n cychwyn yn gynnar yn 2019.

3.5 Bydd gwaith adnewyddu sylweddol i orsafoedd eraill o gwmpas Dyfed-Powys ac ar draws pob un o'r pedair sir yn costio tua £7.8 miliwn dros y 6 blynedd nesaf. Oherwydd cyflwr dirywiol y cyfleuster presennol yn Aberhonddu, mae darpariaeth o £4 miliwn wedi ei gynnwys ar gyfer cyfle cydweithio posibl. Mae trafodaethau'n parhau, ac ar hyn o bryd, rydyn ni ar gam achos busnes ymchwiliad cynnar y broses.

3.6 Yn ogystal â hyn, bydd rhaglen dreigl diweddaru dalfeydd a rhaglen gynnal barhaus wedi'i chynllunio'n cael eu hariannu drwy wariant refeniw o ychydig dros £1 miliwn. Defnyddiwyd ymagwedd gweithredu graddol ar gyfer y gwaith sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn o ran diweddaru dalfeydd yn seiliedig ar risg ac mae'r gwaith yn cynnwys gosod cyfleusterau toiled ac ymolchi dwylo newydd yn lle'r rhai a oedd yno o'r blaen, cael gwared ar waliau preifatrwydd cell lefel isel, diweddaru systemau teledu cylch cyfyng, gwelliannau o ran pwyntiau clymu ychwanegol/ffabrig a chamau gweithredu cywirol eraill a nodwyd yn ystod archwiliadau AHEM. Mae gwaith mewn nifer o gyfleusterau eisoes wedi'i gwblhau gyda rhaglen ar gyfer mynd i'r afael â'r safleoedd sy'n weddill. Mae arolygon cyflwr wedi'u cyflawni ar draws yr ystâd gyfan sy'n pennu lefel y buddsoddiad sydd angen ym mhob lleoliad gan bob elfen is ffabrig,

yn seiliedig ar y risg sy'n gysylltiedig â chyflwr y ffabrig a'r risg i'r deiliad. Mae hyn wedi arwain at broses benderfynu gwybodus ar ba gwmpas o waith i'w gynnal a phryd. Mae'r lefel wybodaeth hon hefyd wedi hysbysu'r Strategaeth Ystadau o ran pennu pa adeiladau y dylid eu cadw a ble mae angen cynllunio newidiadau o ran llety a symudiadau yn y dyfodol.

3.7 Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau cefnogaeth ymgynghorwyr allanol i arwain a rheoli'r gwaith hwn, sy'n cael ei gyflawni mewn pum pecyn. Mae'r gwaith nawr yn ei drydydd cam, sef gwaith Rhanbarthol, gyda'r pecyn cyntaf, sef gwaith bwyler, a'r ail becyn, sef gwaith brys wedi'u cwblhau fwy neu lai. Y pecynnau sy'n weddill yw gwaith tiriogaethol Powys a gwaith Pencadlys Caerfyrddin. Mae blaenoriaethu'r gwaith o fewn y pecynnau i ddod yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a'u halinio â blaenoriaethau gweithredol a pherygl parhad busnes i'r busnes.

3.8 Mae'r gyllideb gyfalaf yn ategu cyllideb refeniw ganolog mewn cysylltiad â gwaith cynlluniedig a chylchol o bwys ar adeiladau sydd wedi'u rhaglennu yn seiliedig ar risg a strategaethau yn y dyfodol ar gyfer pob adeilad. Mae adnoddau refeniw hefyd yn cael eu dal a'u rheoli yn lleol ar gyfer mân atgyweiriadau, cynhaliaeth, a mentrau/rhaglenni cynnal a chadw. Mae buddsoddi wedi'i flaenoriaethu o fewn y rhaglen gyfalaf i leihau gwariant refeniw ar yr ystâd. Bydd nifer o drefniadau caffael hefyd yn cael eu hadolygu yn ystod 2018 er mwyn sicrhau'r defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau wrth gynnal yr ystâd.

Mewn perthynas â Fflyd, gosodwyd dyfeisiau telemateg yng ngherbydau'r Heddlu yn 2017/18. Mae hyn yn rhoi data amser real i'r heddlu mewn perthynas â'r defnydd o gerbydau fflyd ac ymddygiad gyrwyr a fydd yn cael ei ddefnyddio i bennu trefniadau fflyd gweithredol, lleoliadau a gofynion hyfforddi gyrwyr gweithredol o 2018/19. Datblygwyd rhaglen amnewid gychwynnol ac mae'r oblygiadau o ran cost yn cael eu cynnwys yn y blaengynllun cyfalaf. Ystyrir gofynion cerbydau yn fanwl yn y grŵp defnyddwyr cerbydau a fynychir gan gynrychiolwyr cymorth a gweithredol. Mae'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio'r cytundeb Fframwaith Cenedlaethol i gaffael cerbydau gweithredol. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen amnewid ar y trywydd iawn i wario'r gyllideb yn llawn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Mae Grŵp Rheoli Fflyd Strategol yn cwrdd bob chwarter er mwyn darparu sicrwydd gweithredol a llywodraethu cyffredinol sydd yn ei dro yn adrodd i Gyd-fwrdd Asedau.

3.11 Mae'r Heddlu'n dilyn cyfleoedd cydweithio o ran caffael a gweithdai yn weithredol, ac mae'n chwarae rhan lawn yng ngwaith Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â chydweithio ac effeithlonrwydd fflyd.

3.12 Mae gan yr Heddlu Ddogfen Strategaeth Plismona Digidol a oedd yn cynnwys y cyfnod hyd at 2017/18 sydd nawr yn cael ei ddiweddaru. Bydd y ddogfen hon yn gosod y Strategaeth TG ar gyfer yr Heddlu ar gyfer y cyfnod 2018/19 tan 2023/4.

3.13 Mae'r Heddlu wedi bod yn blaenoriaethu gweithredu Rhwydwaith Ardal Eang newydd, sy'n rhagofyniad ar gyfer cyflwyno isadeiledd

teledu cylch cyfyng newydd ar draws y pedair sir. Hefyd, mae ei angen ar gyfer cynnal cynnydd o ran llifoedd data sy'n digwydd mewn perthynas â chamerâu fideo a wisgir ar y corff a gofynion plismona digidol newydd megis darpariaeth tystiolaeth ddigidol a ffeiliau achos. Hefyd, roedd angen i'r Heddlu fuddsoddi mewn amnewid cylchedwaith, switshis ac isadeiledd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion parhad busnes a diogelwch data.

3.14 Mae'r Heddlu wedi parhau i gyflwyno galluoedd digidol drwy ei Derfynellau Data Symudol y mae Swyddogion Heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu yn eu cario, a hyd yn hyn, gellir cwblhau tua 29 proses heddlu ar y dyfeisiau. Nod y prosiect hwn yw gwella amlygrwydd ac effeithlonrwydd prosesau. Mae'r Heddlu hefyd wedi ehangu ei allu mewn perthynas â Systemau Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR) sefydlog a symudol, gyda ffocws ar rannau mwy gwledig o'r ardal Heddlu. Yn ogystal, gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn perthynas â galluoedd Troseddau Digidol a Seiber mewn perthynas ag isadeiledd TGCh.

3.15 Mae'r blaenraglen waith yn ystyried rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n cael eu datblygu gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae tua 17 cynllun yn cael eu datblygu'n genedlaethol, gan gynnwys y canlynol:

- Rhaglen Genedlaethol Gorfodi'r Gyfraith a fydd yn disodli cronfa ddata a Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu
- Cyswllt Digidol â'r Cyhoedd – sy'n ceisio safoni prosesau a weithredir drwy'r we ar draws plismona
- Digidol yn Gyntaf – sy'n ceisio hwyluso ffeiliau erlyn a chyfiawnder a weithredir drwy fideo yn genedlaethol
- Cudd-wybodaeth ac Ymchwiliadau Digidol – rhaglen sy'n edrych ar alluogi datrys ac atal troseddau yn ddigidol
- Gwasanaeth ANPR Cenedlaethol
- Rhaglen alluogi i gyflwyno 365 arf cynhyrchiant Swyddfa, Rheoli Hunaniaeth yn Genedlaethol a Storfa Gwmwl yn ogystal â Chanolfan Genedlaethol Gweithrediadau Diogelwch er mwyn ymateb i fygythiadau seiber
- Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys i ddisodli'r system radio bresennol, sef Airwave
- Biometreg Swyddfa Gartref

3.16 Mae'r Heddlu'n ystyried o ddifrif ei gyfres ei hun o systemau gweithredol a ddatblygir yn fewnol, ac mae'n asesu hyn yn erbyn Systemau Rheoli Cofnodion sydd ar gael yn fasnachol. Bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddatblygiad tymor hirach TGCh o fewn yr Heddlu a bydd yn arwain at gynllun gweithredu neu ddatblygiad wedi'i flaenoriaethu. Rhagwelir y cwblheir y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â theledu cylch cyfyng, y Rhwydwaith Ardal Eang, gwelliannau i'r gwasanaethau trin galwadau yn ogystal â'r rhai sydd ar waith ar gyfer gwella isadeiledd o ran diogelwch data a pharhad busnes yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 a fydd yn gadael capasiti'r Heddlu i gyfalafu ar fanteision rhaglenni a

gweithgareddau a alluogir yn genedlaethol yn ogystal ag archwilio i ddewisiadau mwy arloesol o ran technoleg megis technoleg realaeth estynedig, deallusrwydd artiffisial ac adnabod wynebau ac ati yn ystod rhan olaf y cynllun datblygol.

## 4 Gofynion ac Adnoddau Cyfalaf

4.1 Bu gostyngiad sylweddol o ran ariannu cyfalaf craidd a bennwyd gan y Swyddfa Gartref dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2018/19, bydd cyfanswm grant cyfalaf o £318,000 ar gael ar gyfer y Comisiynydd. Yn ogystal, bydd ariannu canolog ar gael i ariannu Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys, er y bydd disgwyl i'r Comisiynydd ariannu £2.5 miliwn o gostau'r rhaglen hon yn y dyfodol.

4.2 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi blaenoriaethu buddsoddi yn y rhaglen gyfalaf tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant na ellir ei osgoi a thuag at feysydd sy'n lleihau gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

4.3 Fel rhan o'i drefniadau gwasanaeth a chynllunio ariannol integredig, mae'r Comisiynydd yn amcangyfrif lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer blynyddoedd olynol er mwyn llunio blaenraglen gyfalaf.

Cymeradwywyd rhaglen gyfalaf amlinellol gan y Comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2018. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf a gymeradwy ar gyfer 2018/19 i 2023/24 oedd £36.153 miliwn. Ceir manylion llawn y rhaglen gyfalaf yn Atodiad A.

4.4 Er mwyn bodloni'r gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lleihau'r gostyngiadau o ran ariannu grant cyfalaf, mae'r rhaglen gyfalaf a'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys cyfraniadau refeniw o 2019/20 a gofynion buddsoddi allanol i gefnogi datblygu dalfa Sir Gaerfyrddin a datblygiadau isadeiledd eraill.

4.5 Defnyddir lefel y buddsoddi cyfalaf ac adnoddau allanol a ddangosir hefyd i gyfrifo'r gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi a benthyca tymor byr a thymor hir. Mae'r strategaeth hefyd yn bwydo i'r ystyriaethau y mae'r Comisiynydd yn eu gwneud yn flynyddol wrth osod lefelau a dangosyddion benthyca darbodus, cynaliadwy a fforddiadwy. Ystyrir y rhain ochr yn ochr ag ystyriaethau buddsoddi ar wahân o dan y cod materion ariannol o fewn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

4.6 Yn ogystal â'u rhaglen gyfalaf eu hun, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydweithio â phartneriaid a'r Swyddfa Gartref i sicrhau cyfalaf ac adnoddau refeniw ychwanegol i hybu amcanion partneriaeth a thrawsnewidiol. Ymdrinnir â'r rhain drwy brosesau

ategol. Nid yw'r adnoddau a ysgogir yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf oni bai eu bod yn ffurfio rhan o brosiect sydd o dan arweiniad uniongyrchol Heddlu Dyfed-Powys. Bydd cyllid arloesi a thrawsnewid hefyd yn cael ei ystyried i atgyfnerthu prosiectau cyfalaf pellach yn y dyfodol.

## 5 Adnabod a Blaenoriaethu Prosiectau Cyfalaf

5.1 Mae'r rhaglen gyfalaf sydd ynghlwm wedi'i blaenoriaethu gan Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu sy'n arfarnu anghenion yn erbyn blaenoriaethau strategol. Mae'r prosesau'n cydnabod graddfa amrywiol a chymhlethdod prosiectau cyfalaf gan ymgorffori ymagwedd gymesur tuag at arfarnu, monitro a gwerthuso prosiectau cyfalaf.

5.2 Mae'r Comisiynydd yn rheoli ei strategaeth gyfalaf yn weithredol drwy'r Bwrdd Plismona sy'n goruchwylio'r prosiectau newid mawr ar gyfer cyfalaf a refeniw. Yn ogystal, fel rhan o'r newidiadau a wneir i drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Heddlu, bydd y Grŵp Asedau Aur yn cynnal cyflenwi a monitro peryglon penodol o ran rhaglenni. Pennir y gwaith gweithredu manwl i unigolion allweddol ac mae'n cael ei oruchwylio gan y Grwpiau Ystadau a Defnyddwyr Cerbydau neu Fwrdd Prosiect penodol.

5.3 Rheolir prosiectau mawr yn unol â'r arferion gorau o ran cydymffurfio â methodoleg brosiectau PRINCE 2. Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu rhwng rheoli buddion ar brosiectau allweddol, cynllunio effeithlonrwydd a gwybodaeth am gostio.

5.4 Ystyrir cynigion y prosiect Cyfalaf a'u blaenoriaethu gan gyfeirio at achos busnes ac yn erbyn y ffactorau canlynol:

- Pwysigrwydd strategol – sut mae'r cais yn ategu blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach;
- Y canlyniadau a gyflawnir a'r buddion ac effeithiau penodol;
- Cynaliadwyedd – a yw'r costau'n realistig a lefel y goblygiadau refeniw yn y dyfodol;
- Pa ddewisiadau sydd wedi cael eu hystyried?;
- Pa ffynonellau ariannu eraill all fod ar gael;
- I ba raddau y mae'r cynigion yn ategu gweithio mewn partneriaeth.

Yna, eir ati i flaenoriaethu, yn seiliedig ar bedwar categori a restrir isod yn nhrefn eu blaenoriaeth:

- Anochel (atebolrwydd statudol, cytundebol neu gamweddus);

- Blaenoriaeth Gorfforaethol (yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Amcanion Corfforaethol a blaenoriaethau er gwelliant);
- Blaenoriaeth Gwasanaeth (blaenoriaethau'r gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfod);
- Arall (ad-dalu, buddsoddi i gynilo, ysgogi cyllid allanol ac yn y blaen).

Ni ellir ystyried nac ymgymryd â phrosiectau sydd â blaenoriaeth is na ellir eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael oni nodir adnoddau ychwanegol neu danwariant ar y rhaglen gyfalaf gymeradwy yn ystod y flwyddyn.

## 6 Gweithredu a Monitro Prosiectau Cyfalaf

6.1 Adroddir am gynnydd yn erbyn cynlluniau cyfalaf yn drimisol fan leiaf wrth y Bwrdd Plismona a'r Grŵp y Prif Swyddogion.

6.2 Yn dilyn cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf, nodir rheolwr prosiect a chynrychiolydd defnyddwyr i bob prosiect cyfalaf. Y rheolwr prosiect sy'n gyfrifol am reoli gweithredu'r prosiect a chyflawni'i amcanion. Ar gyfer yr holl brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, nodir swyddog fel noddwr y prosiect.

6.3 Mae'r cynrychiolydd defnyddwyr yn gyfrifol am gynrychioli defnyddwyr a chwsmeriaid ac am ddiffinio'r safonau gofynnol. Mae'r ddwy rôl yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol methodoleg rheoli prosiectau Prince 2. Mae rheolwr y prosiect yn paratoi cynllun prosiect i'w gymeradwyo. Adroddir am gynnydd yn erbyn y cynllun prosiect wrth Fwrdd Rheoli'r Prosiect a Noddwr y Prosiect.

## 7 Gwerthuso Prosiectau Cyfalaf sydd wedi'u Cwblhau

7.1 Unwaith i brosiectau gael eu cwblhau, mae rheolwr y prosiect yn cwblhau adolygiad ôl-weithredu i'r prosiectau cyfalaf mawr. Mae hyn yn cynnwys nodi ar ba adeg y bydd yr adolygiad ar ôl y prosiect yn cael ei gynnal. Adolygir yr adroddiad ar ôl y prosiect gan Fwrdd Rhaglen yr Heddlu ac adroddir amdano wrth y Comisiynydd os bydd gofyn.

7.2 Er mwyn gwerthuso gwir lwyddiant a chanlyniadau prosiectau cyfalaf, mae adolygiad hefyd yn cael ei gynnal ar ôl pob prosiect. Mae dyfnder yr adolygiad hwn yn gymesur â graddfa'r prosiect a'r buddion a nodir yn nogfennaeth wreiddiol Cychwyn y Prosiect.

7.3 I bob perwyl, mae'r adolygiad hwn yn asesu perfformiad yn erbyn y cynnig gwreiddiol. Mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd, i ba raddau y mae'r buddion honedig yn cael eu gwireddu, y gwir gostau, refeniw a chyfalaf fel ei gilydd, ac effaith cyllid arall a gweithio mewn partneriaeth. Yna, gall Dyfed-Powys

ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a gwneud unrhyw welliannau a nodwyd wrth roi'r prosiect ar waith.

7.4 Mae llwyddiant parhaus prosiectau'n cael ei fonitro drwy nifer o fecanweithiau megis adborth swyddogion, ymgynghori â'r cyhoedd ac adborth cwsmeriaid.

## 8 Gwaredu Asedau

8.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod yr angen i gael gwared ar asedau sydd dros ben neu sy'n anaddas ar gyfer helpu i gyflawni eu hamcanion corfforaethol a darparu eu rhaglen gyfalaf a chynhwysir y broses fanwl ar gyfer cael gwared ar asedau yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Cafwyd gwared ar sawl eiddo yn ystod 2017/18 gyda chynlluniau i roi rhagor o eiddo segur ar y farchnad maes o law.

## 9 Goblygiadau Refeniw Buddsoddi Cyfalaf

9.1 Mae sylw arbennig wedi'i roi i gostau refeniw parhaus sy'n deillio o brosiectau cyfalaf o fewn y broses arfarnu. Mae'r holl geisiadau cyfalaf posibl yn adnabod costau refeniw parhaus gan ystyried sut gellir talu'r rhain. Unwaith iddynt gael eu cymeradwyo, mae costau refeniw sy'n deillio o gynlluniau cyfalaf yn cael eu hymgorffori yn y cynllun ariannol tymor canolig

## 10 Cloi

10.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried pob agwedd ar reoli cyfalaf gan nodi'r dulliau ar gyfer asesu asedau a phrosiectau cyfalaf. Dylai'r strategaeth gael ei darllen ar y cyd â'r Strategaethau Ystadau a TG manwl a'r Cynllun Amnewid Cerbydau blynyddol.

## 11. Ystyriaethau Effaith

| **Goblygiad** | **Effaith wedi'i hystyried (Do/Naddo)** | **Effaith a nodwyd** |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | DO | Dim |
| Cyfraniad i'r Cynllun Heddlu a Throseddu | DO | Fel y nodwyd yn yr Adroddiad |
| Dadansoddi Risg | NADDO | Wedi'i hasesu ar lefel pob prosiect wrth iddo symud ymlaen |
| Cydraddoldeb | NADDO | Wedi'i hasesu wrth i bob cynllun symud ymlaen |
| Hawliau Dynol | DO | Dim |
| Plant a Phobl Ifainc | DO | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| Amgylcheddol a chynaliadwyedd | DO | Fel y nodwyd yn yr Adroddiad |
| Parc Cenedlaethol | Do | Dim |
| Cyfryngau | Naddo | Rhaid i'r Strategaeth Gyfryngau o gwmpas y cyhoeddi gael ei hystyried gan SCHTh |

**12. Atodiadau**

Atodiad A – Rhaglen Gyfalaf Ddrafft Fanwl

**13. Manylion cyswllt**

Awdur(on): Beverley Peatling / Edwin Harries
E-bost: Edwin.harries@dyfed-powys.pnn.police.uk; Beverley.peatling.opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk
Ffôn: Est 23296 / 23801

**14. Caniatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**

Mae'r wybodaeth yn y ffurflen hon yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan gynnwys yr esemptiadau a nodir yn y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall. Lle bo'r esemptiadau neu gyfyngiadau eraill yn gymwys, golygir y ffurflen hon cyn ei rhoi ar wefan SCHTh o fewn 5 niwrnod gwaith o'i hystyried gan y Bwrdd Plismona.

**15. Cymeradwyaeth Swyddog**

**Prif Swyddog Ariannol**

Ymgynghorwyd â fi ynglŷn â'r cynnig a chadarnhaf fod cyngor ariannol a chyfreithiol wedi'u hystyried wrth baratoi'r adroddiad hwn. Rwyf yn fodlon mai cais priodol yw hwn i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona.

**Llofnod** **Dyddiad 12/3/2018**